## TYSTIOLAETH O GYMHWYSTER ECO4/GBIS FLEX

Ar gyfer POB LLWYBR, mae angen y wybodaeth ganlynol

- **Prawf adnabod**, e.e., copi o drwydded yrru, pasbort, cerdyn adnabod cenedlaethol, arall.
- **Prawf preswylio**, e.e., bil cyfleustodau diweddar, bil treth yr Awdurdod Lleol.
- **Tystiolaeth o ddeiliadaeth breifat**, e.e., dyddiadau cofnod cofrestrfa tir, gweithredoedd neu ddatganiad morgais o fewn y 12 mis diwethaf (os nad yw'r gofrestrfa tir ar gael, templed perthnasol Ofgem (os nad oes yr un o'r dogfennau blaenorol ar gael), os yw'n cael ei rentu'n breifat, un o'r dogfennau blaenorol ynghyd â ffurflen/llythyr caniatâd y landlord.

**Mae'r gofynion tystiolaeth isod wedi'u nodi yng nghanllawiau Ofgem, a gyhoeddwyd ar 10 Ebrill 2024**
https://www.ofgem.gov.uk/sites/default/files/2023-07/GBIS%20and%20ECO4%20Guidance%20for%20Local%20Authorities.pdf

### Llwybr 1: Incwm Aelwyd

**Dylid darparu tystiolaeth o holl ffynonellau incwm perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn incwm blynyddol gros aelwyd. Mae mathau o dystiolaeth addas ar gyfer hyn yn cynnwys:**

- Ffurflenni treth, gan gynnwys ffurflenni treth hunanasesu
- Slipiau cyflog
- Datganiadau pensiwn
- Datganiadau budd-daliadau
- Dogfennaeth P60 neu P45
- Dogfennaeth P11D
- Datganiad o Enillion L17
- Llythyr SA302
- Contract cyflogaeth sy'n arddangos ffigur cyflog blynyddol

**Dylid darparu cadarnhad hefyd ar gyfer nifer y preswylwyr sy'n oedolion yn y cyfeiriad. Mae mathau o dystiolaeth addas ar gyfer hyn yn cynnwys:**

- Llythyrau treth y cyngor
- Cytundebau tenantiaeth
- Datganiadau morgais
- Datganiadau cofrestr etholiadol
- Cyfuniad o'r canlynol sy'n dangos cyfeiriadau cyfatebol ar gyfer derbynwyr:
    - Biliau gwasanaethau
    - Llythyrau budd-daliadau
    - Datganiadau ariannol
    - Llythyrau HMRC neu DWP
    - Llythyrau cofrestru meddyg teulu neu ddeintydd

**Nid yw'r rhestrau hyn yn gynhwysfawr** a gellir defnyddio mathau eraill o dystiolaeth fel **datganiadau banc** os nad yw'r ffynonellau a restrir uchod ar gael. Er mwyn sicrhau bod safonau cydymffurfio yn cael eu bodloni, **rydym yn argymell bod y dystiolaeth a ddarperir yn gyfuniad o wahanol fathau o ddogfennau i gadarnhau incwm blynyddol gros aelwyd, lle bo hynny'n bosibl.**

**Ni ellir dibynnu ar hunan-ddatganiad a roddir gan aelod o'r aelwyd fel tystiolaeth annibynnol o incwm blynyddol gros.**

**Dylai'r holl ddogfennau gael eu dyddio dim mwy na 12 mis cyn y diwrnod y llofnodir y Datganiad**. Dylid defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf o bob dogfen sydd ar gael, lle bo hynny'n bosibl. **Os nad oes tystiolaeth ar gael o'r cyfnod hwn, rydym yn argymell defnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael cyn y cyfnod hwn.**

**Llwybr 2: Targedu Procsi**

**Procsi 1**

Er mwyn tystio hyn, gellir defnyddio sgrinlun o'r Awdurdod Lleol sy'n cadarnhau bod eiddo'r defnyddiwr wedi'i leoli o fewn ardal LSOA cymwys, gyda chefnogaeth data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG).

**Procsi 2**

I ddangos tystiolaeth o hyn, mae mathau addas o dystiolaeth yn cynnwys:

- copi o'r bil treth gyngor sy'n cynnwys y gostyngiad (h.y. llun, e-bost, neu PDF gydag enw a chyfeiriad)
- llythyr yn cadarnhau gostyngiad gan yr Awdurdod Lleol.

**Procsi 3**

I ddangos tystiolaeth o hyn mae mathau addas o dystiolaeth yn cynnwys:

- **Llythyr atgyfeirio wedi'i lofnodi** gan feddyg, meddyg teulu, neu weithiwr iechyd proffesiynol perthnasol arall, wedi'i rannu o gyfeiriad e-bost dilys y GIG
- Neu o leiaf yn o'r mathau canlynol o dystiolaeth:
    - **Cofnod Gofal Cryno'r GIG** sy'n nodi bod y claf yn dioddef o, neu'n derbyn meddyginiaeth ar gyfer, cyflwr iechyd a restrir yng nghanllawiau NICE. Rhaid i hyn gael ei ddilysu gan stamp meddygfa.
    - I'r rhai sydd â chyflyrau **cardiofasgwlaidd neu anadlol**:
        - Llythyrau diagnosis o'r ysbyty
        - Llythyrau atgyfeirio gweithwyr cymdeithasol
        - Copïau o bresgripsiynau amlroddadwy
        - Copïau o lythyrau atgyfeirio at grwpiau sy'n helpu pobl gyda'r cyflyrau hyn.
    - I'r rhai sydd ag **anabledd**:
        - Hysbysiad dyfarnu Taliad Annibyniaeth Personol
        - Hysbysiad dyfarnu Lwfans Byw i'r Anabl
        - Hysbysiad dyfarnu Lwfans Presenoldeb
    - I'r rhai sy'n 65 oed neu'n hŷn:
        - Pasbort
        - Tystysgrif geni
        - Copi o docyn bws
        - Datganiad pensiwn
    - I aelwydydd â **phlant ifanc** (5 oed neu'n iau):
        - Pasbort plentyn
        - Tystysgrif geni plentyn
    - I'r rhai sy'n **feichiog**:
        - Ffurflen Mat B1 sy'n dangos prawf beichiogrwydd ar y dyddiad y llofnododd yr Awdurdod Lleol y datganiad.

**Nid yw'r rhestrau hyn yn gynhwysfawr a gellir defnyddio mathau eraill o dystiolaeth** os nad yw'r ffynonellau a restrir uchod ar gael. Er mwyn sicrhau bod safonau cydymffurfio yn cael eu bodloni, rydym yn argymell bod y dystiolaeth a ddarperir **yn gyfuniad o wahanol fathau o ddogfennau**, lle bo hynny'n bosibl.

**Dylai'r holl ddogfennau gael eu dyddio dim mwy na 12 mis cyn y diwrnod y llofnodir y Datganiad.** Dylid defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf o bob dogfen sydd ar gael, lle bo hynny'n bosibl.

**Procsi 4**

Mae tystiolaeth addas ar gyfer hyn yn cynnwys **dogfennaeth y Gwasanaeth Gwirio Cymhwysedd** sy'n dangos cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim oherwydd incwm isel a ddarperir gan yr Adran Addysg neu ysgol y plentyn.

**Procsi 5: Ddim ar gael yng Ngheredigion**

**Procsi 6**

Mae tystiolaeth addas ar gyfer hyn yn cynnwys y **llythyr atgyfeirio wedi'i lofnodi, ynghyd â phrawf o ddyled nwy a / neu drydan.**

**Llwybr 3: Atgyfeiriadau Meddygol**

I ddangos tystiolaeth bod atgyfeiriad wedi'i wneud, rhaid darparu datganiad gan ddarparwr gofal iechyd perthnasol. Mae templed llythyr Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol y GIG i'w weld ar dudalen we ECO4 Flex Cyngor Sir Cyllid ECO4 Flex - Mesurau - Cyngor Sir Ceredigion

Mae darparwr gofal iechyd perthnasol yn cyfeirio at:

- **Person a restrir yn y Gofrestr Meddygon Teulu:** Mae hyn yn cynnwys unrhyw feddyg teulu a gyflogir mewn GIG neu bractis preifat (GBIS ac ECO4 Canllawiau Gweinyddiaeth Awdurdodau Lleol)
- **Gweithiwr o Ymddiriedolaeth GIG neu Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG:** Mae hyn yn cynnwys ymarferwyr iechyd sy'n gweithio mewn ysbyty neu glinig sy'n eiddo i Ymddiriedolaeth GIG neu Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG
- **Gweithiwr o Fwrdd Iechyd y GIG**

Gellir darparu'r datganiad hwn trwy:

- **E-bost** wedi'i rannu'n uniongyrchol o gyfeiriad e-bost dilys y GIG gan y darparwr gofal iechyd perthnasol
- **Llythyr** sy'n:
    - Wedi'i argraffu ar bapur pennawd, sy'n nodi'r practis, y clinig neu'r ysbyty sy'n gwneud yr atgyfeiriad, a
      Dilysu gyda stamp meddygfa (lle bo hynny'n berthnasol)

Rhaid i'r datganiad ddatgan bod **y darparwr gofal iechyd perthnasol sy'n llofnodi'r llythyr yn ystyried bod rhywun yn yr aelwyd yn dioddef o un o'r pedwar cyflwr iechyd perthnasol** (cyflwr cardiofasgwlaidd, clefyd anadlol, imiwnedd isel, symudedd cyfyngedig) a bod **iechyd y person yn cael ei effeithio'n andwyol gan fyw mewn cartref oer. Rhaid darparu Rhif Cofrestru Meddygol y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) ar gyfer yr ymarferydd yn y llythyr.**